YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE CHURCH IN WALES

*Y Parchedicaf Cherry Vann / The Most Reverend Cherry Vann*
*Archesgob Cymru / Archbishop of Wales*
*Esgob Mynwy / Bishop of Monmouth*

Annwyl Chwiorydd a Brodyr,

Er mwyn cefnogi lles y rhai sy'n gwasanaethu fel clerigwyr ordeiniedig ar draws y dalaith a'u gallu i wasanaethu yn yr hirdymor, mae'r Eglwys yng Nghymru a St Luke's for Clergy Wellbeing yn falch o gynnig goruchwyliaeth fugeiliol broffesiynol, wedi'i hariannu'n llawn. Bydd hyn yn darparu lle cyfrinachol, gyda sail ddiwinyddol, er mwyn ystyried eu gweinidogaeth, ailgyfeirio, a rhoi gwreiddiau ar gyfer patrymau iach o weinidogaeth.

Dros gyfnod o ddeunaw mis, bydd cyfranogwyr yn cael amser pwrpasol i archwilio eu galwedigaeth, eu cyd-destun, a'r pwysau y maent yn eu dwyn. Y nod yw cryfhau gwydnwch y cyfranogwyr, meithrin hunanymwybyddiaeth, a'u galluogi i ffynnu yn eu gwasanaeth parhaus.

Mae'r cynllun hwn ar agor i bob clerigwr ordeiniedig yn yr Eglwys yng Nghymru. Efallai y rhoddir blaenoriaeth i'r rhai yn eu swydd o gyfrifoldeb cyntaf. Er hynny, anogir clerigwyr ym mhob cam o'u gweinidogaeth i fynegi diddordeb. Bydd o leiaf 36 o leoedd ar gael, wedi'u clustnodi ar draws holl esgobaethau'r Eglwys yng Nghymru.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y rhaglen ac am sut i wneud cais ar wefan yr Eglwys yng Nghymru: Goruchwyliaeth Bugeiliol - Gweinidogaeth Gofal i'r rhai sy'n gofalu am eraill. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at dderbyn ceisiadau uniongyrchol, yn gwbl gyfrinachol, i St Luke's.

Gobeithiaf y bydd nifer fawr o'r clerigwyr ordeiniedig yn teimlo y gallant fanteisio ar y cynnig hwn.

Yr eiddoch yng Nghrist,

+ Cherry Cambrensis

Bishopstow, Stow Hill, Casnewydd, De Cymru, NP20 4EA
Bishopstow, Stow Hill, Newport, South Wales, NP20 4EA

*Ffôn / Telephone: 01633 263510*
*E-bost / Email: bishop.monmouth@churchinwales.org.uk*